Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chamau Gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25

Hydref 2024

Gallwn ddarparu crynodeb y ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddarllen. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:


Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chamau Gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25

# Ein rôl

## Mae gennym dair rôl yn bennaf:

Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy’n torri’r Cod Ymddygiad.

Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

## Ein huchelgais

- Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.
- Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.
- Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

## Ein Hegwyddorion

Rydym yn

- annibynnol
- diduedd
- teg
- agored i bawb sydd ein hangen.

# Nod Strategol 1

# Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder sy’n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus.

| Rhif | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Perfformiad 2022/23 | Perfformiad 2023/24 | Targed Bl. 2 |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Yr amser a gymer ar gyfartaledd i gau achos (unwaith y bydd gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom gan achwynydd) | | | |
| | Asesiad (wythnosau) | 3 | 4 | 6 |
| | Ymchwiliad (wythnosau) | 58 | 64 | 55 |
| 1.2 | Cyfran yr adolygiadau o gwynion lle canfyddwn fod ein penderfyniad gwreiddiol yn briodol | 95% | 93% | 95% |
| 1.3 | Cyfran yr adolygiadau Ansawdd Gwasanaeth a oedd yn foddhaol neu’n well | Ddim yn berthnasol | 67% | 80% |
| 1.4 | Cyfran yr argymhellion sy’n ddyledus yn ystod y flwyddyn y cydymffurfiwyd â nhw yn unol â’r targed a osodwyd | 50% | 67% | 75% |
| 1.5 | Cyfran y bobl a oedd yn fodlon â’n gwasanaeth | | | |
| | Yr holl ymatebwyr | 48% | 40% | 52% |
| | Ymatebwyr a oedd yn fodlon â’r canlyniad | 95% | 98% | 95% |

# Camau Gweithredu Nod Strategol 1 2024/25

1.1. Datblygu cynllun data i wella ein gallu i ddeall ein tueddiadau cwynion.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi datblygu cynllun a strategaeth data, i'n helpu i wella ein gallu i ddadansoddi a monitro tueddiadau gwaith achos.*

1.2. Comisiynu'r adolygiad annibynnol o'n gwaith Cod Ymddygiad, gweithredu unrhyw argymhelliad a wnaed gan yr adolygwr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaeth.

*Wedi'i gyflawni pan fydd yr Adolygwr Annibynnol wedi cyhoeddi ei hadroddiad terfynol, pan fydd OGCC wedi gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Cyllid y Senedd a rhanddeiliaid allweddol eraill ar yr adroddiad ac ymateb OGCC.*

1.3. Canolbwyntio ein hadnoddau ymchwilio ar gwynion am wasanaethau rheng flaen a ddarperir ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru.

*Wedi'i gyflawni pan fydd nifer yr ymchwiliadau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd wedi cynyddu.*

1.4. Datblygu a darparu hyfforddiant i'n staff ar arfer disgresiwn OGCC i dderbyn cwynion yn arbennig mewn achosion penodol o ran sector dynodedig.

*Wedi'i gyflawni pan fydd deunyddiau hyfforddi ar arfer disgresiwn ac ar ymagwedd OGCC at gwynion yn ymwneud â thai a gofal cymdeithasol wedi'u darparu.*

1.5. Ystyried sut y gallwn helpu defnyddwyr gwasanaeth, cynghorwyr a sefydliadau i anfon gwybodaeth atom neu dderbyn gwybodaeth gennym yn fwy cyson, diogel a sicr.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi cwmpasu buddiannau, fforddiadwyedd a dichonoldeb porth ar gyfer derbyn a darparu gwybodaeth, dogfennau a gohebiaeth;*

*a*

*phan fyddwn wedi cyflawni'r prosiect porth a phan fydd gennym gynllun ar gyfer ei gyflwyno ymhellach i fodloni'r cwmpas y cytunwyd arno.*

## Nod Strategol 2

# Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant.

| Rhif | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Perfformiad 2022/23 | Perfformiad 2023/24 | Targed Bl. 2 |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Lefel ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth[1] | 43% | 43% | n/a |
| 2.2 | Asesiad achwynydd o'n hygyrchedd ('hawdd i gysylltu â ni') | | | |
| | Yr holl ymatebwyr | 87% | 83% | 90% |
| | Ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r canlyniad | 95% | 86% | 95% |
| 2.3 | Cynrychiolaeth o grwpiau targed ymhlith ein hachwynwyr (nifer o 6 grŵp targed sydd wedi'u cynrychioli'n dda) | 1 | 1 | 2 |
| 2.4 | Cyfran o'n cwynion sydd o fewn ein hawdurdodaeth ac nad ydynt yn gynamserol | 59% | 59% | 65% |

1 Arolwg bob dwy flynedd: bydd y set nesaf o ddata ar gael yn 2025/26

# Camau Gweithredu Nod Strategol 2 2024/25

2.1. Rydym yn alinio ein Cynllun Cyfathrebu ac Allgymorth ar gyfer 2024/25 â'n hymagwedd at waith achos fel ein bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau da a gyflawnwyd gennym i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyrff eiriolaeth.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi cyflawni nifer a chyfran uwch o gwynion a gafwyd am dai a gofal cymdeithasol.*

2.2. Cynllunio a gweithredu canllaw cwynion sy'n gyfeillgar i blant mewn cydweithrediad â Chomisiynydd Plant Cymru.

*Wedi'i gyflawni pan fydd y canllawiau wedi'u rhoi ar waith.*

2.3. Gwella ein gwasanaeth delio â chwynion trwy sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth sydd â'r angen mwyaf am ein cymorth a/neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn ein cwynion yn cael eu cefnogi i gael mynediad i'n gwasanaeth 'cwynion llafar' a'n gwasanaeth cwynion.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi gweld nifer uwch o gwynion ac ymchwiliadau llafar yn cael eu cynnal.*

2.4. Gwella ein hygyrchedd trwy greu adnoddau gweledol hygyrch newydd am ein gwaith a'n proses.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi creu fideo yn esbonio'r daith gwyno.*

2.5. Darparu Hyfforddiant yn swyddfa OGCC ar gyfer Cyrff Eirioli gan ganolbwyntio ar ein hymagwedd newydd at gwynion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.

*Wedi'i gyflawni pan fydd y digwyddiad(au) wedi'u mynychu.*

2.6. Comisiynu a threfnu arolwg blynyddol o sampl cynrychioliadol o'n hachwynwyr i fesur bodlonrwydd â'n gwasanaeth.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi dadansoddi ymatebion arolwg defnyddwyr ymhellach, wedi adolygu cwestiynau i sicrhau bod yr holl ddata perthnasol sydd ei angen yn cael ei gasglu a bod arolwg blynyddol yn cael ei gomisiynu a'i gwblhau'n llwyddiannus;*

*a*

*phan drefnir ymchwil annibynnol cyn pen diwedd y flwyddyn ariannol (adroddiad wedi'i dderbyn erbyn diwedd Mai).*

## Nod Strategol 3

# Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol

| Rhif | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Perfformiad 2022/23 | Perfformiad 2023/24 | Targed Bl. 2 |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Cyfran y cwynion y mae cyrff cyhoeddus wedi delio â nhw ac sydd yna wedi'u huwchgyfeirio atom ni | | | |
| | Byrddau Iechyd | 5% | 5.5% | 5.0% |
| | Awdurdodau Lleol | 7% | 7.1% | 7.0% |
| 3.2 | Cyfran yr argymhellion o ganlyniad i'n hymchwiliadau estynedig ac ehangach sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn y cydymffurfiwyd â nhw yn unol â'r targed a osodwyd | Ddim ar gael | 100% | Ddim yn berthnasol |
| 3.3 | Cyfran yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad a gyfeiriwyd gennym a gadarnhawyd gan Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru | 96% | 85% | 85% |

# Camau Gweithredu Nod Strategol 3 2024/25

3.1. Gwella hygyrchedd ac amlygrwydd cyhoeddus cyhoeddiad data yr Awdurdod Safonau Cwynion, gan gynnwys trwy'r wefan newydd.

*Wedi'i gyflawni pan gaiff adnoddau Awdurdod Safonau Cwynion newydd eu lanlwytho i'r wefan sy'n darparu cynnwys mwy hygyrch - h.y. fideos/ ffeithluniau/darluniau.*

3.2. Cynyddu faint o sesiynau hyfforddi sydd ar gael i fwy o gyrff.

*Wedi'i gyflawni pan ddarperir sesiynau agored trwy gydol y flwyddyn.*

3.3. Cynyddu nifer y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau ymdrin â chwynion.

*Cynnydd yn nifer y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i safonau ymdrin â chwynion yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno.*

3.4. Defnyddio ein pwerau adrodd 'ar ein liwt ein hun' a thematig i dynnu sylw at fethiannau systemig ac anghyfiawnder mewn sectorau penodol, er budd y cyhoedd.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi defnyddio pŵer ar ei liwt ei hun OGCC (eang ac estynedig) i dynnu sylw at fethiannau mewn sectorau penodol, er budd y cyhoedd, ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau, drwy:*

- *Rannu canfyddiadau ein hymchwiliad ar ein liwt ein hun i Asesiadau o Anghenion Gofalwyr*
- *Dechrau proses ein trydydd ymchwiliad ar ein liwt ei hun*
- *Defnyddio adroddiadau thematig i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â Lleithder a Llwydni mewn Tai ac un mater arall.*

# Nod Strategol 4

# Nod Strategol 4 - Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol.

| Rhif | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Perfformiad 2022/23 | Perfformiad 2023/24 | Targed Bl. 2 |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Lefelau absenoldeb salwch (nifer cyfartalog y dyddiau) | 8.6 | 7.7 diwrnod | 6.0 |
| 4.2 | Cyfran y staff sy'n cytuno ein bod yn lle da i weithio | 87% | 75% | 80% |
| 4.3 | Lefel yr amrywiant ar wariant o'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol (llai na) | 0.01% | 0.5% | <3% |
| 4.4 | Rheolaeth briodol o'n cyllideb | Cyfrifon diamod a sicrwydd sylweddol | Cyfrifon diamod a sicrwydd sylweddol | Cyfrifon diamod a sicrwydd sylweddol |
| 4.5 | Cost gyfartalog fesul achos ar gyfer cyfanswm y swyddfa o ran cau gwaith achos | £473 | £432 | <£500 |
| 4.6 | Cost gyfartalog fesul cwyn ar gyfer cyfanswm y swyddfa o ran cau cwynion | £1,279 | £1,289 | <£1,350 |
| 4.7 | Ein hôl troed carbon ($CO_2$ kg wedi'i gynhyrchu) | Ddim ar gael | 62,630kg $CO_2e$<br>Mesul Capita: 895kg$CO_2e$/FTE | 60,000 Kg$CO_2e$ |

# Camau Gweithredu Nod Strategol 4 2024/25

4.1. Gwella ein system rheoli achosion ar gyfer ein staff sy'n delio ag ymchwiliadau i'w helpu i reoli eu llwythi achosion a diweddariadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi datblygu golwg llwyth achosion newydd a gwell ar ein system rheoli achosion.*

4.2. Sicrhau bod y llwythi achosion cyffredinol yn hylaw ac yn ein galluogi i fwrw ymlaen â'r achosion mwyaf priodol ac arwyddocaol a blaenoriaethu ein defnydd o adnoddau.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi diwygio prosesau a meini prawf yn ôl yr angen, i gyflawni cymesuredd, ac i dargedu'r achosion pwysicaf a bod canllawiau clir a chadarn ar gyfer cymesuredd ar waith.*

4.3. Adolygu ein dull o enwi Cynghorwyr Proffesiynol yn ein hadroddiadau terfynol.

*Wedi'i gyflawni pan fydd gennym dull o ran enwi cynghorwyr.*

4.4. Ystyried caniatáu i staff ymgymryd â gwaith newydd pan fyddant o'r farn bod ganddynt gapasiti.

*Wedi'i gyflawni pan fydd gennym benderfyniad o ran dull o ddyrannu achosion.*

4.5. Parhau i fod yn ariannol atebol a dangos safonau uchel o dryloywder.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn yn creu cyfrifon diamod ynghyd â barn archwilio mewnol ac allanol cadarnhaol.*

4.6. Paratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos pwysau, blaenoriaethau, cynlluniau ac ymagwedd ar gyfer y tair blynedd i ddod.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn yn cynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i ddefnyddio i lywio'r cyflwyniad Amcangyfrif ar gyfer 2025/26.*

4.7. Cyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u manylu yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth TG a Digidol. Sicrhau bod y camau gweithredu a'r canlyniadau bwriadol yn cael eu cyflawni yn unol â'r Strategaeth TG a Digidol.

*Wedi'i gyflawni pan gaiff y camau gweithredu a'r canlyniadau bwriadol eu cyflawni yn unol â'r Strategaeth TG a Digidol, fel y manylir yn y Cynllun Gweithredu.*

4.8. Comisiynu ymchwil i ddeall ymatebion i arolwg staff, ac i fod yn sail i ddatblygu cynllun gweithredu i geisio sicrwydd bod staff yn teimlo eu bod yn gallu adrodd am ymddygiad / gweithgarwch annerbyniol, yn dilyn y digwyddiad cyfryngau cymdeithasol.

*Wedi'i gyflawni pan fydd yr ymchwil wedi'i gwblhau a'r cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'r camau gweithredu ar waith.*

4.9. Parhau i gefnogi llesiant staff, gyda gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn, gan rannu gwybodaeth am lesiant gyda staff a hyrwyddo'r defnydd o asesiadau risg straen lle gall straen fod yn fater sy'n dod i'r amlwg neu'n broblem bresennol. Sicrhau bod staff a rheolwyr yn ymwybodol o broses a dull Asesu Risg Straen.

*Wedi'i gyflawni pan fo llesiant yn cael ei hyrwyddo'n barhaus drwy gydol y flwyddyn a nifer y staff sydd wedi cynnal asesiad risg straen.*

4.10. Cyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Pobl.

*Wedi'i gyflawni pan gaiff y camau gweithredu a'r canlyniadau arfaethedig eu rhoi ar waith yn unol â'r Strategaeth Pobl.*

4.11. Datblygu a gweithredu'r Siarter Arweinyddiaeth.

*Wedi'i gyflawni pan fyddwn wedi rhoi'r Siarter Arweinyddiaeth ar waith, sy'n rhoi eglurder ar rôl pob arweinydd i ysbrydoli, annog, darparu ymreolaeth, ysgogi a hyfforddi.*

4.12. Cynnal defnydd o ynni a gwastraff er gwaethaf mwy o bresenoldeb yn y swyddfa.

*Wedi'i gyflawni pan nad yw ein gwastraff a'n hynni yn cynyddu o gymharu â'r llynedd.*

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales